# Stories from the Valleys
# Citizen Journalism



**As part of #TalkValleys we are looking at collecting peoples stories of living in the Valleys...**

We would like you to get involved! This might be sharing your story, keeping a journal, identifying people who are willing to share their stories and becoming a Citizen Journalist, or even involving and training volunteers to collect stories themselves.

The data that will come out of this is intended to inform local development as part of the Welsh Government's task force plan. Importantly however it will also be made available to individuals and organisations (along with training on how to use it), which could be particularly useful for identifying needs, opportunities and evidence for funding bids.

This is not another survey, we want Valleys communities to use the approach to gather stories relevant to their own objectives. We are creating tools to explore sports, community and education, so If you want to understand why people come, or don't come to your community activity, sports club, or to help understand the impact of your work, this approach can help!

All participants in the process will have an opportunity to gain a qualification in this new approach to social research – a unique opportunity to enhance your CV and learn something new.

## What is citizen journalism?


People go out into their communities as Citizen Journalists to interview someone about an issue. For example, you might ask a friend or neighbour about their experience of how their community is changing, or you might visit a community centre to chat to a whole group of people. The Citizen Journalist would use a story collecting app called SenseMaker® to record interviews and ask some follow up questions.

The goal is to create useful material that can be used to encourage people to explore and understand what the key issues in their community are, and to create new ways of addressing these issues together. This helps to build and connect communities through getting people talking about the things that are important to them, and possible even to discover what is already there.

## Journal keepers

Journal keepers record their experiences daily or weekly and become part of a human network able to provide feedback and thoughts on their lived experience to inform policy and practice. Journal keepers can also be Journalists! We will be organising events in 2018 to which journal keepers and journalists will be invited, so keep an eye out for further updates or, to find out more or to get involved email us at:
**hello@valleysstories.com**

# Straeon o’r Cymoedd
# Newyddiaduraeth Ddinasyddol



**Fel rhan o #TrafodyCymoedd rydym ni’n ystyried casglu straeon pobl am eu profiad o fyw yn y Cymoedd...**

Bydden ni’n hoffi i chi gymryd rhan! Gallai hyn ddigwydd drwy rannu eich stori, cadw dyddiadur, gwybod am bobl sy’n fodlon rhannu’u straeon a dod yn Newyddiadurwr Dinasyddol, neu hyn yn oed hyfforddi gwirfoddolwyr i gasglu straeon eu hunain.

Bwriedir defnyddio’r data sy’n deillio o hyn i addysgu datblygiad lleol fel rhan o gynllun tasglu Llywodraeth Cymru. Ond yn bwysig hefyd, bydd yr wybodaeth ar gael i unigolion a sefydliadau (ynghyd â hyfforddiant ar sut i’w ddefnyddio), a allai fod yn arbennig o ddefnyddiol i adnabod anghenion, cyfleoedd a thystiolaeth wrth geisio am arian.

Nid dim ond arolwg arall mo hwn, rydym ni am i gymunedau’r Cymoedd ddefnyddio’r dull hwn i gasglu straeon sy’n berthnasol i’w nodau nhw. Rydym ni’n creu offer i archwilio chwaraeon, cymuned ac addysg, felly os ydych chi eisiau deall pam fod pobl yn dod, neu ddim yn dod, i’ch gweithgaredd cymunedol, clwb chwaraeon, neu i helpu deall effaith eich gwaith, gall y dull hwn o weithio helpu!

Bydd pawb sy’n cymryd rhan yn y broses yn cael cyfle i ennill cymhwyster yn y dull newydd hwn o ymchwilio cymdeithasol – cyfle unigryw i wella eich CV a dysgu rhywbeth newydd.

## Beth yw Newyddiaduraeth Ddinasyddol?

Bydd pobl yn mynd i’w cymunedau fel Newyddiadurwyr Dinasyddol i gyfweld rhywun am bwnc. Er enghraifft, efallai y byddech chi’n gofyn i ffrind neu gymydog am eu profiad o newidiadau yn eu cymuned, neu efallai y byddech chi’n ymweld â chanolfan gymunedol i sgwrsio â grŵp cyfan o bobl. Byddai’r Newyddiadurwyr Dinasyddol yn defnyddio ap casglu straeon o’r enw SenseMaker® i gofnodi cyfweliadau a holi ambell gwestiwn wedyn.

Y nod yw creu deunydd defnyddiol y gellir ei ddefnyddio i annog pobl i archwilio a deall beth yw’r pynciau allweddol yn eu cymunedau, a chreu ffyrdd newydd o drin y materion hyn gyda’i gilydd. Mae hyn yn helpu i adeiladu a chysylltu cymunedau drwy gael pobl i siarad am y pethau sy’n bwysig iddyn nhw, a’i gwneud hi’n bosib darganfod beth sydd yno’n barod, hyd yn oed.

## Cadw dyddiadur

Bydd dyddiadurwyr yn cofnodi eu profiadau dyddiol neu wythnosol gan ddod yn rhan o rwydwaith o bobl fydd yn gallu rhoi adborth a meddyliau am eu profiad bywyd i addysgu polisi ac arferion. Gall dyddiadurwyr hefyd fod yn Newyddiadurwyr! Byddwn ni’n trefnu digwyddiadau yn 2018 gan wahodd dyddiadurwyr a newyddiadurwyr iddynt, felly cadwch lygad am ragor o wybodaeth, neu i ddysgu rhagor neu gymryd rhan, anfonwch e-bost at: **helo@storiauycymoedd.com**

https://storiauycymoedd.com/

#TrafodyCymoedd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government